Care & Repair
Gofal a Thrwsio

# Hynach Nid Oerach

## Canllawiau ar Gadw eich Cartref yn Gynnes a'ch Biliau yn Is



WALES&WEST UTILITIES



# Cynnwys


**Pwy yw Gofal a Thrwsio?** 1
- Hynach Nid Oerach: Gwasanaeth Gofal a Thrwsio

**Llesiant** 2

**Arbed Ynni** 3
- Atal drafftiau
- Insiwleiddio tanciau, pibelli a rheiddiaduron
- Rhoi blaenoriaeth i'r ystafelloedd a ddefnyddir amlaf
- Y newidiadau bach

**Grantiau** 4
- Grantiau Effeithlonrwydd Ynni y Llywodraeth
- Cynllun Insiwleiddio Great British (GBIS)
- Cynllun Uwchraddio Boeleri
- Rhaglen Cartrefi Cynnes

**Biliau Ynni** 6
- GAIR I GALL os ydych yn cael trafferthion i dalu eich biliau ynni

**Budd-Daliadau** 7
- Budd-daliadau sydd â phrawf modd arnynt
- Budd-daliadau heb brawf modd arnynt
- Taliadau cymorth

**Sgamiau** 11

**Cysylltu â'ch Gofal a Thrwsio lleol** 12


# Pwy yw Gofal a Thrwsio?

**Mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn yng Nghymru i drwsio, addasu a chynnal a chadw eu cartrefi.**

Rydym yn fudiad elusennol sy'n gweithredu ledled Cymru i sicrhau fod gan bobl hŷn gartrefi addas ar gyfer eu hanghenion. Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartref diogel, cynnes a chyfleus.

Efallai eich bod yn pryderu sut y gallwch barhau i fyw'n annibynnol yn eich cartref eich hun wrth i chi heneiddio. Dyna lle gall Gofal a Thrwsio eich helpu.

## Hynach Nid Oerach: Gwasanaeth Gofal a Thrwsio

Gall ein gwasanaeth Hynach Nid Oerach helpu i gadw eich cartref yn gynnes, eich biliau yn is a'ch helpu i hawlio'r budd-daliadau y mae gennych hawl iddynt.

**Mae'r gwasanaeth ar gyfer pobl sydd:**

- yn byw yng Nghymru
- dros 60 oed
- yn berchen eu cartref eu hunain neu yn rhentu'n breifat

Gallwn ymweld ac asesu eich cartref a rhoi cyngor arbenigol i chi yn rhad ac am ddim. Byddwn hyd yn oed yn ceisio canfod cyllid ar eich cyfer os ydych angen gwaith trwsio neu waith i wella cynhesrwydd ac effeithiolrwydd ynni eich cartref.

Mae cadw'n gynnes gartref yn hanfodol ar gyfer eich iechyd a llesiant. Mae oerfel yn gwaethygu dementia, cyflyrau anadlol a chlefydau eraill, a rydych hefyd yn fwy tebygol o syrthio pan ydych yn byw mewn amodau oer.

Dyna pam fod ein gwasanaeth Hynach Nid Oerach yma i helpu. Yn Gofal a Thrwsio, nid ydym yn derbyn y dylai unrhyw berson hŷn fyw mewn cartref sy'n anaddas ar gyfer eu hanghenion neu fynd yn wael oherwydd eu bod yn byw mewn cartref oer.

## Ein Swyddogion Ynni Cartref

Gall ein Swyddogion Ynni Cartref cyfeillgar asesu eich anghenion a rhoi cyngor arbenigol i chi. Gallant:

- Asesu eich cartref i wneud yn siŵr ei fod wedi'i insiwleiddio ac yn gynnes
- Cynnig cyngor ar ffyrdd i arbed ynni yn eich cartref
- Sicrhau fod eich system wresogi yn ddiogel ac effeithiol
- Helpu i ddatrys problemau lleithder, llwydni a chyddwysiad
- Eich cefnogi os ydych yn cael trafferthion gyda'ch biliau ynni
- Eich helpu i wneud cais am grantiau i helpu eich cadw'n gynnes

I wneud cais am ymweliad rhad ac am ddim gan Swyddog Ynni Cartref, cysylltwch â'ch Gofal a Thrwsio lleol **(gweler tudalen 12**).

# Llesiant

**Mae rhai pethau bach y gallwch eu gwneud a all gael effaith fawr ar eich iechyd a'ch llesiant:**

| | |
|---|---|
| **Gwisgo haenau o ddillad** | Bydd gwisgo llawer o haenau teneuach yn eich helpu i gadw gwres eich corff a'ch cadw'n gynhesach drwy'r dydd. Gall blanced wedi'i gwresogi ar gyfer tu mewn y cartref hefyd helpu i gadw eich corff yn gynnes. |
| **Bwyta'n dda a symud o amgylch** | Mae'n dda cadw stoc o ffrwythau a llysiau a chael o leiaf un pryd twym bob dydd. Ceisiwch beidio aros yn llonydd am gyfnod hir gan fod symud yn ffordd dda i gadw'n gynnes. |
| **Atal lleithder a llwydni** | Cadwch eich cartref wedi'i awyru'n dda i osgoi cyddwysiad rhag crynhoi. Defnyddiwch ffan echdynnu, agor ffenestri am gyfnodau byr mewn ystafelloedd nad ydych yn eu defnyddio a chadw aer i gylchredeg yn dda drwy adael bylchau rhwng dodrefn a waliau. |



# Arbed Ynni

## Ffyrdd i arbed ynni yn y cartref

### Atal drafftiau

Mae atal drafftiau yn un o'r ffyrdd rhataf a mwyaf effeithiol i ostwng colli gwres o'ch cartref a chadw eich biliau ynni yn is. Gallai atal drafftiau o ddrysau a ffenestri arbed tua £45 y flwyddyn i chi gan y byddai llenwi bylchau diangen sy'n gadael aer oer i mewn ac aer gynnes allan yn golygu defnyddio llai o ynni i wresogi eich cartref a'i wneud yn gyffredinol gynhesach.

### Insiwleiddio tanciau, pibelli a rheiddiaduron

Bydd gosod paneli adlewyrchu tu ôl i reiddiaduron ar waliau allanol yn adlewyrchu gwres yn ôl i'r ystafell yn hytrach na gadael i wres fynd allan drwy'r wal. Bydd mesurau eraill tebyg i insiwleiddio eich tanc dŵr poeth yn gostwng colli gwres, gan olygu y byddwch yn gwario llai o arian yn twymo dŵr a bod y dŵr yn aros yn gynnes am hirach. Gallai cael gorchudd 80mm o drwch ar eich tanc dŵr poeth arbed tua £50 y flwyddyn i chi.

### Rhoi blaenoriaeth i'r ystafelloedd a ddefnyddir amlaf

Os ydych yn ceisio cadw costau gwresogi yn is, rhowch flaenoriaeth i'r ystafelloedd lle'r ydych yn treulio'r rhan fwyaf o'ch amser, yn hytrach na cheisio gwresogi eich cartref i gyd. Bydd hyn yn eich cadw yn gynhesach a'ch costau ynni yn is. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn awgrymu mai 18°C yw'r tymheredd gorau ar gyfer eich cartref, ond mae 20°C yn well ar gyfer pobl sy'n hŷn neu heb fod yn iach. Er ei bod yn bwysig peidio gwastraffu ynni, mae'n bwysicach byth cadw eich cartref ar dymheredd sy'n teimlo'n gysurus i chi.

### Y newidiadau bach

Gall gweithredu newidiadau bach yn eich cartref wneud gwahaniaeth mawr i'ch bil ynni, gan eich galluogi i arbed arian a gwneud eich pwt dros yr amgylchedd. Gall troi offer tebyg i degellau neu setiau teledu i ffwrdd yn y soced arbed hyd at £50 y flwyddyn i chi. Mae golchi dillad ar dymheredd is, newid i fylbiau golau sy'n arbed ynni a rhoi dim ond digon o ddŵr yn y tegell ar gyfer un cwpanaid o de yn ffyrdd eraill i ostwng faint o ynni a ddefnyddiwch, gan helpu i gadw eich biliau ynni yn is.

| Insiwleiddio atig | Insiwleiddio tanc dŵr poeth | Atal drafftiau o ffenestri a drysau | Troi offer i ffwrdd wrth y plwg |
|---|---|---|---|
| **Arbed £270 y flwyddyn** | **Arbed £220 y flwyddyn** | **Arbed£45 y flwyddyn** | **Arbed £55 y flwyddyn** |

# Grantiau

## Grantiau Effeithlonrwydd Ynni y Llywodraeth

### ECO4

Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr ynni y Deyrnas Unedig yn rhan o'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO). Mae angen iddynt wella effeithiolrwydd ynni aelwydydd cymwys. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i aelwydydd incwm isel a bregus i gael ôl-osod tŷ cyfan i wella effeithiolrwydd ynni.

I dderbyn cyllid ECO4, mae'n rhaid i chi fod yn derbyn budd-daliadau y mae prawf modd arnynt a bod â EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni) o D neu is. Os ydych yn rhentu'n breifat, mae'n rhaid i chi fod ag EPC o E neu is. Efallai y byddwch yn dal i fedru defnyddio'r cynllun os nad oes gennych EPC.




### ECO4 FLEX

Dan ECO4 Flex, gallech fod â hawl i gymorth heb i chi fod yn derbyn budd-daliadau y mae prawf modd arnynt. Mae meini prawf cymhwyster ar gyfer ECO4 Flex yn cynnwys:

- Incwm aelwyd dan £31,000

NEU

- Derbyn gostyngiad treth gyngor a/neu fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim.
- Bod â chyflwr iechyd sy'n cymhwyso. Fel arfer daw hyn dan bedwar cyflwr: cardiofasgwlaidd, anadlol, symudedd cyfyngedig neu imiwnoataliedig.

Gall awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan atgyfeirio aelwydydd bregus ac incwm isel i'r cynllun. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau neu Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol yng Nghymru yn cynnig ECO4 Flex felly cysylltwch â'ch cyngor lleol os credwch y gallech fod â hawl i gymorth o'r cynllun hwn.

### Cynllun Uwchraddio Boeler

Gallai'r Cynllun Uwchraddio Boeler roi hawl i chi i £5,000 ar gyfer boeler biomas a £7,500 ar gyfer pympau gwres o'r aer a'r ddaear. Bydd angen i chi fod yn berchen eich cartref eich hun gyda EPC dilys a heb unrhyw argymhellion heb eu cyflawni am insiwleiddiad atig neu waliau ceudod.

### Cynllun Insiwleiddio Great British (GBIS)

Cafodd y GBIS ei gynllunio i ategu cynllun ECO4 ac mae cymhwyster yn gweithio mewn ffordd debyg, ond mae'n anelu i gynnig cymorth i ystod ehangach o berchnogion cartref a thenantiaid. Ynghyd â grŵp cymhwyster 'incwm isel' ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd, mae'r GBIS yn cynnwys grŵp 'cyffredinol' o aelwydydd sy'n gymwys am help i uwchraddio effeithiolrwydd ynni. Bydd hyn yn cynnwys pob aelwyd gyda graddiad EPC o D i G a sydd ym mandiau Treth Gyngor A i E yng Nghymru.

Fel gyda ECO4 Flex, gall awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan atgyfeirio aelwydydd i'r GBIS os ydynt yn cyflawni meini prawf ar incwm isel neu gyflwr iechyd. Gall awdurdodau lleol atgyfeirio ar y cyd ar gyfer ECO4 Flex a hefyd GBIS.

Gall cymorth o'r GBIS gynnwys insiwleiddio, yn cynnwys insiwleiddio waliau ceudod, waliau allanol a dan y lloriau. Penderfyniad y cyflenwr ynni yw pa brosiect y penderfynant ei gymryd a lefel y cyllid a gynigiant. Mae hyn yn golygu na fydd cymhwyster am y GBIS o reidrwydd yn gwarantu y bydd cyflenwr ynni yn gosod mesurau effeithiolrwydd ynni yn eich cartref.

### Rhaglen Cartrefi Cynnes

Mae Rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor rhad ac am ddim ac, os yn gymwys, becyn o welliannau ynni cartref rhad ac am ddim i ostwng eich biliau ynni ac i'ch cadw'n gynhesach yn eich cartref. Gall y cynllun wneud gwelliannau i ffabrig eich cartref, tebyg i osod ffenestri newydd yn lle ffenestri drafftiog neu osod insiwleiddiad. Gall hefyd uwchraddio eich system wresogi.

Gall ein Swyddogion Ynni Cartref eich helpu i gael mynediad i grantiau, gan eich tywys drwy'r broses gais. Mae manylion cyswllt eich Gofal a Thrwsio lleol ar gael ar **dudalen 12.**

# Biliau Ynni

### Gair i gall os ydych yn cael trafferthion i dalu eich biliau ynni

- ✔ **GWNEWCH** geisio siarad gyda'ch cyflenwr ynni i drafod ffordd i dalu sy'n gweithio i'r ddwy ochr. Gall ein Swyddogion Ynni Cartref gysylltu gyda'ch cyflenwr ynni ar eich rhan.
- ✔ **GWNEWCH** geisio a chytuno ar gynllun talu i dalu dyled mewn rhandaliadau. Mae'n bwysig hysbysu eich cyflenwr am eich amgylchiadau. Er enghraifft, dywedwch wrthynt am unrhyw gyflwr iechyd a all fod arnoch.
- ✔ **GWNEWCH** gael cyngor effeithiolrwydd ynni am ddim. Gallwn roi cyngor arbenigol i chi ar y ffyrdd gorau i arbed ynni yn eich cartref, gan gadw eich biliau mor isel ag sydd modd.
- ✔ **GWNEWCH** gofrestru ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR). Gallwch gofrestru drwy eich cwmni ynni. Bydd hyn yn golygu y bydd gennych hawl i gymorth blaenoriaeth mewn argyfwng, gwasanaethau darllen mesurydd rheolaidd, help i ailgysylltu eich cyflenwad nwy a mesurau eraill tebyg i gymorth blaenoriaeth pan fyddwch yn galw eich gweithredydd rhwydwaith.
- ✖ **PEIDIWCH** ag anwybyddu llythyrau neu osgoi cyswllt gyda'ch cyflenwr ynni, fel arall gallech fod mewn risg o gael eich datgysylltu.
- ✖ **PEIDIWCH** â dioddef yn dawel. Os ydych yn talu drwy fesurydd blaendalu, efallai y gallwch gael mynediad i daleb tanwydd drwy eich cyngor lleol neu wasanaeth cymorth lleol. Gallwn eich helpu i wirio i weld os oes gennych hawl i unrhyw gymorth ariannol.
- ✖ **PEIDIWCH** â chanslo eich debyd uniongyrchol neu drefniadau credyd gyda'ch cyflenwyr ynni. Efallai y gallwch gael mynediad i gymorth ariannol gan gronfeydd ymddiriedolaeth, ond mae hyn yn fwy tebygol os ydych wedi bod yn ceisio gwneud taliadau rheolaidd nac os ydych wedi rhoi'r gorau yn llwyr i dalu.

# Budd-daliadau

### Ydych chi'n derbyn popeth y mae gennych hawl iddo?

Mae'r argyfwng costau byw, y cynnydd mewn chwyddiant a biliau ynni drud yn golygu fod pobl angen yr holl help y gallant ei gael. Y llynedd, amcangyfrifwyd na chafodd tua £19 biliwn o gymorth budd-daliadau a thariffau cymdeithasol ei hawlio, gyda thua miliwn o aelwydydd pensiynwyr ddim yn hawlio Credyd Pensiwn yr oedd ganddynt hawl iddo. Gallech fedru hawlio budd-daliadau neu cynyddu'r hyn a hawliwch os ydych yn:

- Ofalwr
- Gwael neu anabl
- Pensiynwr ar incwm isel
- Ei chael yn anodd talu am hanfodion (tebyg i fwyd a chartref)

Gall budd-daliadau fod yn gymhleth a gall y drefn o wneud cais atal llawer o bobl rhag gwneud hynny. Ond rydym yma i'ch helpu i dderbyn yr hyn y mae gennych hawl iddo.



## Budd-daliadau sydd â phrawf modd arnynt

Gallech fod â hawl i gymorth yn seiliedig ar eich sefyllfa ariannol. Mae budd-daliadau y mae prawf modd arnynt yn cynnwys:

- **Credyd Pensiwn:** Ategu eich incwm os ydych dros oedran pensiwn gwladol. Bydd faint a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Gallwch ddal i hawlio Credyd Pensiwn hyd yn oed os oes gennych rai cynilion neu bensiwn preifat neu weithle, er fod rhai terfynau. Gallwn eich helpu i gyfrif os y byddai gennych hawl i Gredyd Pensiwn, ac os felly faint y gallech ei gael.
- **Taliad Tywydd Oer:** Yn weithredol rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth ac mae'n gymorth ariannol ychwanegol ar gyfer cyfnodau o dywydd oer iawn.
- **Credyd Cynhwysol:** Cynlluniwyd i'ch cefnogi os ydych ar incwm isel neu allan o waith. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol a gallech fod â hawl i arian ychwanegol os oes gennych gostau tai, anabledd neu gyflwr iechyd neu gyfrifoldebau gofalu. Mae'n rhaid i chi neu'ch partner fod dan oed pensiwn gwladol a bod ag incwm isel.
- **Gostyngiad Treth Gyngor:** Os ydych ar incwm isel, efallai y gallech gael gostyngiad ar eich Treth Gyngor. Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu dim o gwbl.

## Budd-daliadau heb brawf modd arnynt

Mae cymorth ychwanegol ar gael beth bynnag yw'ch incwm neu eich eiddo. Mewn llawer o achosion caiff y budd-daliadau hyn eu cynllunio i helpu gyda chostau ychwanegol cael anabledd neu bod yn wael neu'n gofalu am rywun sy'n anabl neu'n wael. Nid yw'n rhaid i chi fod â chyfraniadau yswiriant gwladol ar gyfer hyn. Mae budd-daliadau heb brawf modd yn cynnwys:

- **Lwfans Gweini:** eich helpu gyda chostau ychwanegol os oes gennych anabledd ac angen cael rhywun i ofalu amdanoch. Nid yw'n rhaid i hyn fod yn ofalwr proffesiynol; gall fod yn bartner, perthynas neu gyfaill. Gall gynnwys gofal personol neu help i drin cyflwr iechyd, neu gall yn syml olygu rhywun yn eich helpu i wneud gweithgareddau yr ydych yn eu mwynhau neu fynd o gwmpas. Mae'n fudd-dal arian y gallwch ei wario sut bynnag y dymunwch; nid yw wedi ei gyfyngu i gostau gofal.
- **Lwfans Gofalwr:** budd-dal os ydych yn rhoi gofal rheolaidd a sylweddol i berson anabl neu wael. Ni fedrwch gael Lwfans Gofalwr unwaith yr ydych wedi cyrraedd oedran pensiwn gwladol, ond gallwch gael Elfen Gofalwr ychwanegol wedi ei ychwanegu at eich Credyd Pensiwn.
- **Taliad Annibyniaeth Personol (PIP):** i helpu gyda chostau byw ychwanegol os oes gennych gyflwr corfforol neu iechyd meddwl neu anabledd sy'n golygu eich bod angen cymorth ychwanegol, offer arbennig neu amser ychwanegol i wneud rhai tasgau bob dydd, yn cynnwys mynd o gwmpas. Gallech gael y rhan byw dyddiol o PIP a/neu rhan symudedd PIP. Ni fedrwch wneud hawliad newydd am PIP unwaith eich bod wedi cyrraedd oedran pensiwn gwladol (byddech yn hawlio Lwfans Gweini yn lle hynny) ond gallwch ddal i'w hawlio os ydych yn cael PIP pan gyrhaeddwch yr oedran hwnnw.
- **Lwfans Byw i'r Anabl (DLA):** Ni all oedolion wneud hawliadau newydd am hyn bellach (er y gallech ddal ei dderbyn os buoch yn cael DLA am gyfnod hir). Fodd bynnag, os mai chi yw'r prif ofalwr ar gyfer plentyn dan 16, yn cynnwys wyrion sy'n byw gyda chi neu blant maeth, gallwch ei hawlio ar eu rhan.

Mae'n bwysig gwirio os oes gennych hawl derbyn help ychwanegol. Gall eich Gofal a Thrwsio lleol gynnal gwiriad budd-daliadau drosoch, neu gallech geisio defnyddio teclyn cyfrif budd-daliadau ar-lein tebyg i'r un yn benefits-calculator.turn2us.org.uk.

I hawlio budd-dal bydd angen i chi fel arfer lenwi ffurflen, naill ai ar bapur, ar-lein neu drwy alwad ffôn a gallai fod angen i chi gael tystiolaeth dros hawlio. Gallwn eich helpu i wneud y cais hwn a'ch llywio drwy'r broses.

Mewn rhai achosion, bydd hawlio un budd-dal yn rhoi hawl i chi gael mwy o daliadau cymorth neu dariffau cymdeithasol. Er enghraifft, os oes gennych hawl i Gredyd Pensiwn, byddwch yn medru cael help arall tebyg i:

- Budd-dal tai os ydych yn rhentu'r eiddo yr ydych yn byw ynddo
- Cymorth ar gyfer llog morgais os ydych yn berchen yr eiddo yr ydych yn byw ynddo
- Trwydded deledu am ddim os ydych yn 75 oed neu drosodd
- Help gyda chostau triniaeth ddeintyddol GIG, sbectol a chostau cludiant ar gyfer apwyntiadau ysbyty
- Help gyda'ch bil treth gyngor
- Gostyngiad Cartrefi Cynnes: £150 i ffwrdd eich costau ynni ym misoedd y gaeaf.

### Taliadau Cymorth

Mae ffynonellau eraill o daliadau cymorth os ydych yn ei chael yn anodd talu am eich costau hanfodol.

- **Taliad Tanwydd Gaeaf:** Taliad unigol blynyddol os cawsoch eich geni ar neu cyn 24 Medi 1957 ar gyfer gaeaf 2023/24, rhwng £250 a £600 i'ch helpu gyda'ch biliau cyfleustod dros y gaeaf.
- **Cronfa Cymorth Dewisol:** Grant nad oes angen i chi ei ad-dalu ar gyfer pobl sydd angen help i fyw'n annibynnol yn y gymuned (Taliad Cymorth Unigol) neu fod wedi profi argyfwng (Taliad Cymorth Argyfwng). Gall cymhwyster i gael mynediad i'r taliadau hyn ddibynnu os ydych yn derbyn budd-daliadau y mae prawf modd arnynt, neu eich sefyllfa ariannol unigol.
- **Cynlluniau Taleb Tanwydd:** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer cynllun taleb tanwydd, a anelwyd at bobl gyda mesuryddion blaendalu ac aelwydydd heb fod wedi cysylltu â'r brif bibell nwy. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi'r Sefydliad Banc Tanwydd i gyflwyno cynllun taleb cenedlaethol, gyda aelwydydd cymwys yn derbyn hyd at dair taleb dros y cyfnod o chwe mis.
- **Tariffau cymdeithasol a gostyngiad cyfraddau:** Er nad yw cwmnïau ynni yn cynnig tariffau cymdeithasol ar filiau nwy a thrydan erbyn hyn, efallai y gallwch ganfod gostyngiad cyfraddau ar filiau cyfleustod arall. Mae Dŵr Cymru yn cynnig tariff HelpU ar gyfer aelwydydd incwm isel. Mae hyn yn golygu fod cap ar eich bil dŵr felly ni fyddwch yn talu dros swm neilltuol bob blwyddyn. Efallai y gallwch hefyd gael gostyngiad cyfraddau ar gyfer eich cysylltiad band eang os ydych yn derbyn budd-daliadau y mae prawf modd arnynt, tebyg i'r Credyd Pensiwn.

Gwyddom fod llawer o bobl yn poeni am hawlio'r hyn y gallent fod â hawl iddo, neu hyd yn oed yn teimlo'n anghysurus yn gofyn os gallent fod â hawl o gwbl. Fodd bynnag, mae Gweithwyr Achos Gofal a Thrwsio yma i helpu ac nid ydynt eisiau i chi fod ar eich colled. Os ydynt yn cynnal gwiriad budd-daliadau i chi, byddant yn cadw popeth a ddywedwch wrthynt yn gyfrinachol ac ni fyddent byth yn cysylltu ag asiantaeth budd-daliadau heb gael caniatâd personol gennych.

Mae manylion cyswllt eich Gofal a Thrwsio lleol ar **dudalen 12.**

# Sgamiau

## Eich diogelu eich hunan rhag sgamiau

Mae'r argyfwng costau byw ac ynni wedi golygu fod llawer o aelwydydd yn bryderus am dalu eu biliau ynni ac yn edrych ar wneud gwelliannau ynni cartref. Yn anffodus, mae masnachwyr twyllodrus a sgamwyr wedi cymryd y cyfle i werthu cynnyrch yn hawlio arbed arian i chi ar eich biliau ynni.

Mae insiwleiddio chwistrellu ewyn mewn atigau yn gynnyrch a ddaeth yn fwy poblogaidd mewn blynyddoedd diweddar, ond yn anffodus mae ganddo'r potensial i fod yn niweidiol iawn i'ch eiddo. Gall insiwleiddiad chwistrellu ewyn mewn atigau hefyd ei gwneud yn anodd i werthu eich cartref a gall fod yn gostus iawn ei dynnu oddi yno.

Wrth ystyried gwelliannau i gartrefi ac ynni, dylech bob amser ofyn am ail farn; mae eich Gofal a Thrwsio lleol yma i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am wneud newidiadau i'ch cartref. Gall fod yn syniad da i sicrhau fod gan osodwr neu grefftwr achrediad TrustMark neu Which? Trusted Trader.



# Cysylltu â'ch Gofal a Thrwsio lleol

**Cysyllwch â'ch Gofal a Thrwsio lleol i wneud cais am ymweliad gan un o'n Swyddogion Ynni Cartref.**

**Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol**
Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
**01792 798599**
**enquiries@candrwb.co.uk**

**Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili**
Blaenau Gwent a Chaerffili
**01495 321091**
**enquiries@bgccr.co.uk**

**Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro**
Caerdydd a Bro Morgannwg
**02920 473337**
**careandrepair@crcv.org.uk**

**Gofal a Thrwsio Casnewydd**
Casnewydd
**01633 233887**
**admin@newportcareandrepair.co.uk**

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
Conwy a Sir Ddinbych
**0300 111 2120**
**post@gofalathrwsio.com**

**Gofal a Thrwsio Cwm Taf**
Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
**01443 755696**
**enquiries@cwmtafcr.org.uk**

**Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru**
Sir y Fflint a Wrecsam
**01352 758700**
**caseworkers@careandrepairnew.co.uk**

**Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru**
Sir Benfro a Cheredigion
**01437 766717**
**hello@wwcr.co.uk**

**Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn**
Gwynedd a Môn
**01286 889360**
**gofalathrwsio@gofalathrwsio.org**

**Gofal a Thrwsio Powys**
Powys
**01686 620760**
**enquiries@crpowys.co.uk**

**Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen**
Sir Fynwy a Thorfaen
**01495 745936**
**enquiries@crmon.org.uk**

**Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin**
Sir Gaerfyrddin
**01554 744300**
**office@careandrepaircarms.org.uk**

**Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr**
Pen-y-bont ar Ogwr
**01656 646755**
**enquiries@bridgendcareandrepair.co.uk**

**Becky Ricketts**
**Rheolwr Prosiect Hynach Nid Oerach:**
becky.ricketts@careandrepair.org.uk



Care & Repair
Gofal a Thrwsio

www.careandrepair.org.uk

enquiries@careandrepair.org.uk

029 2010 7580

Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig (Rhif 1163542)
a chwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif 09574555).